



CREATIVITY IN THE UK

**COFNODION CYFARFOD ANFFURFIOL BWRDD FESTIVAL 2022 LTD DRWY  
GYNHADLEDD FIDEO DDYDD IAU 31 MAWRTH 2022, 19:30 – 20:30**

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")  
(y "Rhaglen" ac "UNBOXED")

**Presennol:**

Y Fonesig Vikki Heywood DBE (VH)	Cadeirydd y Bwrdd, Anweithredol
Faraz Tasnim (FT)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Dr. Hayaatun Sillem CBE (HS)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Rob Smith MBE (RS)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Roger Mosey (RM)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Dr. Maggie Aderin-Pocock MBE (MAP)	Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol
Priya Lakhani OBE (PL)	Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Lloegr

**Arsyllwyr yn Bresennol:**

Emma Squire CBE (ES)	Llywodraeth y DU
Richard Walsh (RW)	Llywodraeth yr Alban

**Yn bresennol:**

Martin Green CBE (MG)	Prif Swyddog Creadigol
Phil Batty (PB)	Cyfarwyddwr Gweithredol
Caroline McGrory (CMcG)	Prif Swyddog Cyfreithiol
David Gray (DG)	Prif Swyddog Ariannol
Ben McKnight (BMcK)	Cyfarwyddwr Cyfathrebu
John Darnbrook (JD)	Pennaeth Integreiddio Busnes
Adel Al-Salloum (AAS)	Pennaeth Partneriaethau Creadigol
Julie Flavell (JF)	Uwch Gynhyrchydd
Morgan Summers-Smith (MSS)	Rheolwr Ymgyrchoedd Strategol
Marie-Therese Chitnis (MTC)	Rheolwr Etifeddiaeth ac Effaith
Laura O'Donnell (LO'D)	Rheolwr Prosiect Cynorthwyl
Laura O'Flynn (LO'F)	Rheolwr Llywodraethu (Cymryd nodiadau)

**Y Tîm Creadigol yn Cyflwyno  
(eitem 2a):**

John Wassell (JW)	Cynhyrchydd Creadigol Arweiniol a Chyd-sylfaenydd Walk the Plank
Liz Pugh (LP)	Cyd-Sylfaenydd Walk the Plank
Kathy Hayes (KH)	Cynhyrchydd Gwlad, Gogledd Iwerddon
Keren McKean (KMck)	Cynhyrchydd Cefn Gwlad, Yr Alban
Nathaniel Fernandes (NF)	Peiriannydd Graddedig Siemens
Helen Palmer (HP)	Arweinydd Cyfathrebu
Rebecca Whitman (RWh)	Rheolwr Cynaliadwyedd
Charlie Morrison (CM)	Cyfarwyddwr Gweithredol
Jasmine Bertie (JB)	Arweinydd Dysgu a Chyfranogi
Alison Fordham (AF)	Prosiectau a Phartneriaethau

**26/22 Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol a nododd fod hwn yn gyfarfod anffurfiol a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer cynnal golwg ddofn ar Green Space Dark Skies

Cafwyd ymddiheuriadau gan Amali de Alwis MBE, yr Athro Andrew Thompson CBE,

Liam Hannaway, Roger Lewis, Dr Bridget McConnell CBE, ynghyd â Gerwyn Evans, Louise Hyland, Ian Reid, Bea Hendry a Lucy Bailey.

## 27/22 Green Space Dark Skies: Golwg fanwl

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r tîm sy'n gweithio ar brosiect Green Space Dark Skies.

Cyflwynodd y tîm y dull o ymdrin â'r brosiect, gan nodi i'r Bwrdd y nodau penodol canlynol o Green Space Dark Skies:

- Cysylltu pobl â chefn gwlad:
  - Wyneb yn wyneb mewn digwyddiadau byw a reolir yn ofalus
  - Ar-lein drwy ddsbarthu ffilmiau ac ymgysylltu digidol
- Tynnu sylw at fregusrwydd ein cynefinoedd naturiol
- Cael gwared ar rwystrau sy'n atal mynediad
- Bod yn brosiect cynaliadwy, carbon net-bositif ardystiedig
- Arloesi ac yn gweithio gyda thechnoleg newydd

Mae'n bwriadu 'cerdded yn ysgafn ar y tir' a gadael dim ôl.

Rhoddodd y tîm y wybodaeth ddiweddaraf am feysydd gan gynnwys manylion am y canlynol:

- Partneriaid cenedlaethol
- Technoleg geo-oleuadau
- Y ffilmiau: potensial dosbarthu
- Timau digwyddiadau a rhanddeiliaid allweddol
- Cynaliadwyedd
- Mynediad, amrywiaeth a chynhwysiant
- Cyfranogiad
- Dysgu: Adnoddau ymarferol
- Marchnata, Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu
- Dyddiadau a lleoliadau digwyddiadau byw
- Etifeddiaeth

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu cyflwyniad. Llongyfarchodd y Bwrdd y tîm a gwnaeth y trafodaethau'n ymdrin â'r meysydd canlynol:

- **Dosbarthu'r cynnwys digidol:** Cwestiynodd y Bwrdd yr amserlen o ddigwyddiadau byw a dosbarthu ffilmiau. Dywedodd y tîm fod bwriad i'r uchelgais wreiddiol oedd rhyddhau wythnos ar ôl y digwyddiad. Ar ôl myfyrion, teimlwyd y byddai'r amserlenni'n rhy uchelgeisiol a'u bod yn eu hailystyried ar hyn o bryd. Yn ogystal, gall fod gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol byrrach yn cael ei ryddhau. Cefnogodd MG y tîm mewn amserlenni mwy realistig a theimlai ei bod yn bwysig gweld y digwyddiadau byw fel nid eiliadau a ysgogir gan gynulleidfaoedd, ond dull o ddal cynnwys.



CREATIVITY IN THE UK

- **Cyfleoedd darlledu:** Teimlai'r Bwrdd y byddai'n bwysig ymgysylltu â theledu rhanbarthol yn y digwyddiad fel straeon diddordeb lleol cymhellol. Cytunodd y tîm. Roedd y Bwrdd yn gwerthfawrogi bod y cynnwys yn dod at ei gilydd ond pwysleisiodd fod cynnwys digidol yn gystadleuol iawn ac er bod gan hyn olygfeydd hardd a bod yr ymyriad ysgafn yn gwneud profiad gweledol unigryw, bydd yn hanfodol sicrhau na chymerir yn ganiataol y bydd cynulleidfaoedd yn ymgysylltu ac yn sicrhau bod strategaeth farchnata yn cael ei datblygu i gefnogi'r weledigaeth artistig gyffredinol ar gyfer yr allbwn digidol.
- **Cysylltiad ag UNBOXED:** Roedd ES wedi bod yn siopa dirgel yn ystod gwyliau penwythnos yn Dorset a gwelodd gyfeiriad at Green Space Dark Skies mewn dau gylchgrawn ond nid oedd y naill na'r llall yn cynnwys cyfeiriad at UNBOXED. Yn ogystal, darparwyd dolen hefyd nad oedd yn cyfeirio at UNBOXED. Teimlai'r Bwrdd fod hwn yn gyfle a gollwyd i ddangos bod Green Space Dark Skies yn bodoli fel rhan o raglen ehangach a bod brandio a chyfeiriadau ysgrifenedig at hyn yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen gyffredinol. Cadarnhaodd y tîm fod pob datganiad i'r wasg yn cael ei redeg drwy'r broses o gymeradwyo cysylltiadau cyhoeddus UNBOXED, felly efallai mai disgresiwn cylchgronau oedd rhywfaint o hyn. Cytunodd y timau i gydweithio'n agos i ddatrys hyn wrth symud ymlaen. Nodwyd, fel rhan o'r ymdrechion hyn, y dylai tystiolaeth o'r arian a ddarperir gan y trethdalwr drwy'r pedair Llywodraeth hefyd gael ei blethu i mewn i negeseuon.
- **Adnoddau a chyfleoedd dysgu:** Amlinellodd y tîm eu bod yn canolbwyntio ar gymryd rhan gyda'r Goleuwyr ac oherwydd amseru, cystadleuaeth ac adnoddau, prin fu ymgysylltiad ysgolion, a sefydliadau AB/AU. Teimlai PL nad oedd addysg yn cael ei lethu â phrosiectau UNBOXED gan fod pob comisiwn mor wahanol ac yn credu'n gryf y gellir gwneud mwy i ysbrydoli plant drwy Green Space Dark Skies. Gofynnwyd i UNBOXED a Green Space Dark Skies fyfyrion ar hyn fel rhan o gynlluniau a datblygiadau parhaus.
- **Eglurhad ar ddefnyddio a manteisio ar y dechnoleg olau yn y dyfodol:** Gofynnodd y Bwrdd am eglurder ynghylch a ddisgwyd i'r golau ffisegol ddod yn gynnyrch sydd ar gael i'w brynu neu'n benodol i'r prosiect hwn. Dywedodd y tîm na fyddai'r cynnyrch yn cael ei werthu'n fasnachol, ond mae'r cymhwysiad technoleg yn sefydlu modelau defnydd newydd.
- **Uchelgais ac adnoddau cyffredinol:** Gofynnodd y Bwrdd i'r tîm beth oedd y risgiau lefel uchel yn eu barn nhw. Teimlai'r tîm ei fod yn rheoli set o faterion amrywiol yn gyson ac ar ôl ei lansio ym mis Ebrill bydd y tîm yn ei hanfod yn cynnal digwyddiad byw bob wythnos ac mae hynny'n defnyddio llawer o adnoddau. Mae cynlluniau ar waith i ailasesu a dysgu gwersi'n barhaus, ond yn hollbwysig i dîm Green Space Dark Skies yw profiad y Goleuwyr. Rhaid i hyn fod yn ardderchog i'w gadael â theimlad o sut y cawson nhw eu croesawu, eu cysylltu a'u bod yn rhan enfawr o'r profiad ei hun. Byddai hyn yn helpu i greu diddordeb ac o ganlyniad yn cefnogi cyfathrebu cadarnhaol y prosiect ac UNBOXED.
- **Lefelau annisgwyl o ymgysylltu â'r cyhoedd â'r digwyddiadau byw:** Teimlai'r tîm fod eu cyfathrebu â Goleuwyr yn ei gwneud yn glir bod y lleoedd yn gyfyngedig oherwydd gweithio mewn amgylcheddau gwarchoddedig.



CREATIVITY IN THE UK

Cydbwysu creu bwrlwm mewn ardaloedd lleol wrth reoli'r digwyddiad. Y flaenoriaeth o hyd yw'r profiad digidol a sut mae cynnwys yn ymgysylltu ac yn cael ei ddefnyddio.

- **Dosbarthiad ehangach cynnwys digidol:** Awgrymwyd y gellid dosbarthu cynnwys hefyd drwy wyliau ffilm, gyda Gŵyl Ffilm Mynydd Kendal a gwyliau ffilm mynydd rhyngwladol eraill yn cael eu cynnig fel enghreifftiau. Nododd y tîm hyn i'w archwilio.

Diolchodd y Cadeirydd i Dîm Creadigol Green Space Dark Skies unwaith eto am fod yn bresennol a llongyfarchodd y tîm ar brosiect diddorol a chyffrous.

Gadawodd tîm Creadigol Green Space Dark y cyfarfod. Rhoddodd HS ymddiheuriadau hefyd a gadawodd y cyfarfod hefyd.

## 28/22 Gweithrediadau Mewnol a Myfyrdodau

Rhododd PB drwy'r pum mater risg coch allweddol a nodwyd gan UNBOXED o gofrestr risg Green Space Dark Skies. Cadarnhaodd PB fod y rhain yn cael eu rheoli'n weithredol, a 4 allan o 5 yn cael eu symud ymlaen i gau. Cadarnhawyd bod PL fel Hyrwyddwr Prosiect NED wedi bod drwy gyfres o sgysiau gyda'r Bwrdd Gweithredol a chadarnhaodd yr asesiad hwn.

Cadarnhawyd bod y prosiect yn adrodd ar lefelau gwariant ariannol yn unol â'r gyllideb cyn i'r cyfnod digwyddiadau byw ddechrau.

Nododd y Bwrdd mai'r maes sy'n peri pryder gweddilliol oedd y gallu i'r prosiect fanteisio i'r eithaf ar botensial llawn y profiad digidol i adeiladu ar y digwyddiad byw. Cadarnhaodd MG fod y tîm yn gweithio ar hyn yn weithredol.

Gan fod PL bellach wedi'i neilltuo yn Hyrwyddwr Prosiect NED ar gomisiwn arall cynigiodd VH gymryd lle PL wrth gau'r mater terfynol hwn a rhai eraill a godwyd yn y sesiwn hon. Roedd y Bwrdd yn cytuno â'r dull hwn.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r her a roddwyd i'r tîm o ran manteisio i'r eithaf ar fanteisio a chyfleoedd addysgol y prosiect. Roedd JF yn cytuno ac yn teimlo bod gan y cynnwys hwn y potensial i fod yn unigryw a dywedodd fod yr Arweinydd Addysg o fewn y Tîm Creadigol yn cytuno ar hyn. Teimlwyd y gallai dyrannu adnoddau ychwanegol o'r prosiect i'r maes hwn fod yn fuddiol. Cytunodd JF i fynd ar drywydd hyn gyda'r tîm. Gofynnodd RS i hyn hefyd ystyried lleoliadau a rhydwethiau ieuencid heb fod yn ffurfiol (e.e., Sgowntiaid a grwpiau tebyg).

Rhododd PB sicrwydd bod y tîm yn croeswrio adnoddau ac effeithiau ar draws y rhaglen lawn o flaenoriaethau ac yn dadflaenoriaethu gweithgareddau yn unol â hynny.

Crynhodd Cadeirydd y Bwrdd gan bwysleisio ei fod yn brosiect gwyb, hardd gyda chalon wrth ei wraidd. Dylai'r pwyslais fod ar ehangu'r gynulleidfa ac ymgysylltu a gwella mynegiant o'r datblygiad technoleg wrth wneud hynny a rhoi'r teimlad emosynol i'r gynulleidfa ddigidol ehangach.



CREATIVITY IN THE UK

**CAM GWEITHREDU:** MG/JF i roi adborth i'r Tîm Creadigol yn dilyn y sylwadau ar Green Space Dark Skies.

**29/22 Unrhyw fusnes arall**

Ni chodwyd 'Unrhyw Fusnes Arall'.

**Diwedd y cyfarfod**

Daeth y cyfarfod i ben am 21:00. Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd ar 7 Ebrill 2022 wedi'i neilltuo ar gyfer golwg fanwl ar Tour de Moon, yn rhithwir.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol:  
Cyfarwyddwyr Bwrdd  
Arsyllwyr Bwrdd  
Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad anfonwyd at y Cadeirydd:	13 Ebrill 2022
Dyddiad dychwelyd i'r Gweinyddwr:	14 Ebrill 2022
Dyddiad dosbarthu:	27 Ebrill 2022